



10 Tachwedd 2014

Annwyl Gyfaill,

Mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal **ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau**.

Fel rhan o'r ymchwiliad hwn bydd y Pwyllgor yn ystyried y meysydd canlynol:

- effeithiau camddefnyddio alcohol a sylweddau ar bobl yng Nghymru, gan gynnwys pobl ifanc a myfyrwyr prifysgol; pobl hŷn; pobl ddigartref; a'r bobl yn nalfa'r heddlu neu mewn carchardai;
- effeithiolrwydd polisiâu presennol Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol a sylweddau ac unrhyw gamau pellach y gallai fod eu hangen;
- pa wasanaethau sydd ar gael yn lleol ar draws Cymru i godi ymwybyddiaeth o effaith y niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol a sylweddau a chapasiti'r gwasanaethau hynny.

### **Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Er mwyn llywio'r ymchwiliad, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn mewn cysylltiad â'r cylch gorchwyl a nodir uchod. Efallai y byddwch am ddarparu cyflwyniad ysgrifenedig sy'n ymdrin â'r cylch gorchwyl a amlinellir uchod. Fel arall, efallai yr hoffech ymateb i holiadur y Pwyllgor ar gyfer yr ymgynghoriad (a fydd ar gael ar wefan y Pwyllgor o ddydd Llun 17 Tachwedd). Caiff yr

Bae Caerdydd / Cardiff Bay  
Caerdydd / Cardiff  
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403  
E-bost / Email: [HSCCommittee@wales.gov.uk](mailto:HSCCommittee@wales.gov.uk)

ymatebion eu casglu a'u dadansoddi, ac fe'u defnyddir i lywio'r sesiynau tystiolaeth lafar gyda chyrff ac unigolion perthnasol, y bwriedir eu cynnal yn ystod gwanwyn 2015.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad. Mae canllawiau ar gyfer tystion sy'n darparu tystiolaeth ysgrifenedig i byllgorau ar gael yn Atodiad A.

Yn gyffredinol, gofynnwn i dystiolaeth gael ei chyflwyno'n ysgrifenedig gan ei bod yn arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i Bwyllgor ar ein gwefan fel ei bod yn rhan o'r cofnod cyhoeddus. Fodd bynnag, gallwn hefyd dderbyn tystiolaeth ar ffurf sain neu fideo. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisïau / cynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, pan fo'n berthnasol, yn unol â'u polisïau ynghylch gwybodaeth i'r cyhoedd.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad i **PwyllgorIGC@cymru.gov.uk**. Fel arall, gallwch ysgrifennu at: Clerc y Pwyllgor, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

**Dylai unrhyw sylwadau gyrraedd erbyn dydd Gwener 9 Ionawr 2015.** Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Wrth baratoi eich sylwadau, cofiwch:

- ni ddylid defnyddio mwy na phum ochr A4;
- dylid defnyddio paragraffau wedi'u rhifo;
- (os byddwch yn anfon sylwadau electronig) byddai'n well defnyddio dogfennau Word, yn hytrach na ffeiliau pdf; a
- chanolbwyntio ar y cylch gorchwyl a amlinellir uchod.


Er gwybodaeth, mae rhestr o'r bobl yr anfonwyd yr ymgynghoriad atynt ar gael yn Atodiad B i'r llythyr hwn. Os ydych yn gwybod am unigolion neu sefydliadau eraill a allai fod â diddordeb mewn ymateb i'r ymgynghoriad, dylech dynnu eu sylw at y llythyr hwn.

### **Datgelu gwybodaeth**

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn [www.cynulliadcymru.org/cy/help/privacy/help-inquiry-privacy.htm](http://www.cynulliadcymru.org/cy/help/privacy/help-inquiry-privacy.htm).

Gofynnwn ichi sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "David F. Rees." The signature is written in a cursive style and is centered on a light yellow rectangular background.

**David Rees AC**

**Cadeirydd**

## Atodiad A: Canllawiau i dystion sy'n cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i bwyllgorau

Mae'r Cynulliad wedi ymrwmo i ddarparu gwybodaeth hygrych i'r gynulleidfa ehangaf bosibl. Bwriad y canllaw byr hwn yw cynorthwyo tystion sy'n llunio gwybodaeth ysgrifenedig i bwyllgorau. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i ddarparu gwybodaeth a gyflwynwyd gan eraill mewn modd hygrych.

- Defnyddiwch Gymraeg a Saesneg clir – gan osgoi jargon diangen
- Defnyddiwch ffont sydd o leiaf maint 12
- Defnyddiwch ffont sans serif, fel Lucida Sans
- Peidiwch ag ysgrifennu testun dros luniau, graffeg neu ddyfrnodau
- Lliwiau a chyferbyniad – dylai'r ysgrifenedig gyferbynnu gymaint â phosibl â'r cefndir: ysgrifenedig dywyll ar gefndir golau, ac ysgrifenedig olau ar gefndir tywyll
- Peidiwch â defnyddio priflythrennau bloc, a cheisiwch osgoi defnyddio print trwm, print italig a thanlinellu

Lle bo modd, dylid darparu gwybodaeth gan ddefnyddio Microsoft Word er mwyn sicrhau hygrychedd. Pan fyddwch chi'n cyflwyno sgan neu pdf, yn enwedig pan fyddant yn llythyrau neu'n dablau o wybodaeth, dylech gyflwyno'r ddogfen Word wreiddiol gyda hi.

## **Atodiad B: Ymgynghoriad ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus**

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anfon at yr unigolion a'r sefydliadau canlynol. Os ydych yn gwybod am unigolion neu sefydliadau eraill a allai fod â diddordeb mewn ymateb i'r ymgynghoriad, dylech dynnu eu sylw at y llythyr hwn.

- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### *Llywodraeth Lleol*

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLIC)
- Awdurdodau lleol
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

### *Addysg*

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon
- National Union of Students Alcohol Impact Initiative
- Prifysgolion

### *Cyfiawnder Troseddol a charchardai*

- ARCH Initiatives Cymru
- Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu
- Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
- Howards League for Penal Reform
- Nacro
- Cymdeithas Genedlaethol y Swyddogion Prawf
- Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
- Ffederasiwn yr Heddlu
- Heddluoedd yng Nghymru
- Cymdeithas y Llywodraethwyr Carchar
- Systemau rheoli troseddwyr carchar
- Cymdeithas y Swyddogion Carchar
- Rehabilitation for Addicted Prisoners Trust
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid

- Timau Troseddau Ieuencid

### *Gweithwyr Iechyd Proffesiynol*

- Academi'r Colegau Brenhinol yng Nghymru
- Cymdeithas Feddygol Prydain
- Coleg Parafeddygon
- Fferylliaeth Gymunedol Cymru
- Ffederasiwn Gweithwyr Proffesiynol Cyffuriau ac Alcohol
- Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys
- Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
- Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
- Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
- Coleg Brenhinol y Ffisigwyr
- Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
- Cymdeithas Fferyllol Frenhinol

### *Byrddau a Ymddiriedolaethau Iechyd*

- Conffederasiwn GIG Cymru
- Byrddau Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- GIG Cyn-filwyr Cymru

### *Rheolyddion*

- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

### *Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau*

- Age Cymru
- Alcohol Concern Cymru
- Alcoholics Anonymous
- Tŷ Brynawel
- Cais

- Cyswllt Contact
- DAN 24/7
- Elusennau Cyffuriau ac Alcohol Cymru
- Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau (DIP)
- Drugaid Cymru
- DrugsTraining.com
- DrugScope
- Institute of Alcohol Studies
- Stafell Fyw Caerdydd
- Prosiect Kaleidoscope
- Y Sefydliad Iechyd Meddwl
- MIND Cymru
- Narcotics Anonymous
- Newlink Wales
- Recovery Cymru
- Shelter Cymru
- Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau
- TEDS (Treatment and Education Drug Services)
- Turning Point Cymru
- The Wallich
- Prosiect WEDINOS
- Welsh Centre for Action on Dependency and Addiction
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill
- Cyngor Camddefnyddio Alcohol a Chyffuriau Gorllewin Morgannwg

*Arall*

- Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru
- Y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg

